Trosolwg

Wednesday, October 30, 2019 7:10 PM

Enw myfyriwr: Ellie-Jo Thomas
Rhif myfyriwr: 1900708
Teitl Aseniad: Paratowch bortffolio sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.
Cwrs: TAR Uwchradd Cymraeg

Dolen i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900708_student_uwtsd_ac_uk/EhMAQVQ4jltPt3WY0UQ9cgIBfbOIa-ugpSRPOALjmza-wA?e=PfTgyJ

Y tair egwyddor addysgegol a ddewiswyd (Donaldson 2015):

- Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer
- Mae addysgu a dysgu da yn gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

Tuesday, December 10, 2019 5:02 PM



Prawf diwedd thema

1 = Ysgol

Matsiwch -

1. Saesneg ✓
2. Hanes ✓
3. Daearyddiaeth ✓
4. Cerddoriaeth ✓
5. Chwaraeon ✓
6. Gwyddoniaeth ✓
7. Celf ✓
8. Technoleg ✓

✓A. Art
✓B. Geography
✓C. History
✓Ch. English
✓D. Technology
✓Dd. Science
✓E. Physical Education
✓F. Music

1 Ch 2 C 3 B 4 F 5 E 6 Dd 7 A 8 D

Cyfleithwch -

1. Rydw i'n hoffi Cymraeg achos mae'r athrawes yn wych.
I like welsh because the teacher is nice.
2. Mae'n gas gyda fi cerddoriaeth achos mae'n ddiflas.
I hate music because it's boring

Ysgrifennwch frawddegau eich hun—Write your own

1. Dw i'n hoffi pel-fasged achos mae'n cool.
I like basket ball because it's cool.
Dw i'n ddim yn hoff i Saesneg achos mae'n ddiflas.
2. I don't like English because it's boring

Ysgrifennwch am y wisg ysgol - Write a description of our school uniform.

Mae berchgen gwisgo trowsus du, esgidiau du, crys-t gwyn a thei poppol. Mae merched gwisgo sgirt du, esgidiau du, crys-t gwyn a thei poppol.

Wyt ti'n hoffi'r wisg ysgol?

Dw i'n hoffi wisg ysgol achos mae'n smart.

Asesu Page 3

Atodiad 1

Ar ddiwedd pob thema, mae'n rhaid i'r disgyblion gwblhau prawf er mwyn profi eu dealltwriaeth. Dyma enghraifft o brawf diwedd thema (ysgol) a wnaeth Blwyddyn 7. Ffocws y wers oedd cwblhau'r prawf sy'n portreadu asesu ar gyfer dysgu oherwydd bod amrywiaeth o dasgau yn y prawf ac mae'n fy ngalluogi i asesu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion am y thema. Esboniais y prawf cyn iddynt ei gwblhau er mwyn sicrhau dealltwriaeth. Yr oeddent yn gallu defnyddio eu llyfrau a llyfrynnau am gymorth sy'n anfantais oherwydd eu bod yn gallu dibynnu ar eu llyfrau a llyfrynnau yn hytrach na defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Felly, ni ddylwn fod wedi gadael iddynt ddefnyddio cymorth yn ystod y prawf.



1. Mae Cerddoriaeth yn well na Ffiseg.
2. Ffiseg ydy'r gwaethaf.
3. Mae Cymraeg yn waeth o Saesneg.
4. Mae Dama cystal â celf.
5. Rydw i'n mwynhau Saesneg cymaint â Mathematics

Mae Disney ydy'r gorau.
Mae Siopa yn well na pel-droed. Mae Ffifa yn waeth na pel-droed a Rygbi ydy'r gwaethaf.
Rydw i'n mwynhau darllen yn fy mwrw i mae'n llawer o hwyl.
Mae darllen yn well na chwaraeon. Chwaraeon ydy'r gwaethaf. Mae Harry Potter yn well na Twilight dwlles mae'n gyffrous. Mae ffilmiau Harry Potter cystal â llyfr Harry Potter
Mae Lord of the Rings yn waeth a Hobbit.
Rydw i'n hoffi Hobbit cymaint â Harry Potter.

*. dw i'n meddwl bod ddiflas iawn. Fodd bynnag, rydw i'n hoffi Twilight yn sbwriel.

Atodiad 2

Addysgais wers Gymraeg am gymharu ansoddeiriau afreolaidd i Flwyddyn 10 ac yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am ddarllen trwy ddefnyddio ansoddeiriau afreolaidd er mwyn profi dealltwriaeth o'r wybodaeth a ddysgwyd yn y wers. Dyma enghraifft o baragraff sy'n cynnwys ansoddeiriau afreolaidd. Dengys hyn asesu ar gyfer dysgu oherwydd fy mod yn defnyddio asesu er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion brofi eu dealltwriaeth o'r ansoddeiriau afreolaidd a fydd yn fy ngalluogi i asesu eu dealltwriaeth a gweld lle maent yn y broses ddysgu. Nid oeddwn wedi cynnwys meini prawf llwyddiant yn ystod y dasg ysgrifennu, felly dylwn i fod wedi darparu meini prawf llwyddiant iddynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r dasg oherwydd nad oeddent yn gwybod faint o'r ansoddeiriau afreolaidd i'w defnyddio.



Atodiad 3

Addysgais wers Gymraeg am yr amser gorffennol (Rheol A, ais i) i Flwyddyn 9 ac yr oedd asesu ar gyfer dysgu ar ddiwedd y wers oherwydd yr oedd rhaid iddynt chwarae gem (Snakes & Ladders) er mwyn adolygu'r wybodaeth a phrofi dealltwriaeth o'r wybodaeth a ddysgwyd yn y wers. Yr oedd y gêm wedi fy ngalluogi i asesu eu dealltwriaeth ac yr oeddent wedi mwynhau chwarae. Fodd bynnag, yr oedd rhai berfau ar y daflen nad oeddent yn eu gwybod (e.e ymlacio, lliwio), felly yr oeddent yn cael trafferth yn ystod y gêm. Dylwn i fod wedi darparu taflen help sy'n cynnwys y berfau er mwyn sgaffaldio eu dysgu a'u helpu i brofi eu dealltwriaeth.



Gwaith Dosbath

Paragraff trefn ddyddiol

Bore da! [redacted] dwi. Rydw i'n codi am Chwarter wedi saith, a Chael brecwast am Chwarter i wyth. Rydw i'n mynd i'r ysgol am Chwarter wedi wyth. Rydw i'n Cerdded gyda fy ffrindia Holly a Shannon. rydw i'n

Am wyth o'r gloch Diwsio fy named.

Brusio fy ngwallt a gwisgo.

Rydw i'n Cael Cymraeg am bum munud i naw, Snaesneg am bum munud i deg a hanes am bum munud i un ar ddeg. Rydw i'n Cael Cinio am bum munud i deu-ddeg a Chael Cerddoriaeth a gwyddoniaeth yn y pryhawn.

Mae'r ysgol yn gorffen am Chwarter wedi tri a rydw i'n cyfraed adref am hanner awr wedi tri.

Rydw i'n Cael te am bedwar o'r gloch ac yna rydw i'n gwneud fy ngwaith catref rhwng pump o'r gloch a Chwech o'r gloch. Am saith o'r gloch rydw i'n mynd am dro gyda'r ci



Rydw i'n gwylio'r teledu am ~~han~~ chwarter i wyth ac yna rydw i'n mynd i'r gwely am hanner awr wedi wyth ar ôl swper.

Level - 5

You are able to write a range of sentences describing what you do in your day. Your use of

Diwmod prysur iawn!

[redacted]

Rhaid = Must

1) I am sian, I live in Cardiff. I have to do ~~Much from~~ many things around the house. I have to tidy the bedroom. I hate tydying, it's boring!!

2) I am John. I don't have to do many things around the house. My Mam does everything but sometimes I have to baby-sit my little Sister, Emma - She is 5 years old and gets on my nerves!

Punctuation is good and you have written a lot of sentences.

Atodiad 4

Addysgais wers Gymraeg am drefn ddyddiol i Flwyddyn 9 ac yr oedd asesu ar gyfer dysgu ar ddiwedd y wers oherwydd yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am eu trefn ddyddiol er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a ddysgwyd yn y wers. Yr oedd hyn wedi fy ngalluogi i weld lle maent yn y broses ddysgu. Yr oedd asesu cyfoedion yn ystod y dasg oherwydd yr oedd rhaid i'r disgyblion farcio paragraff eu partner a rhoi lefel iddynt. Yr oedd yr asesu ar gyfer dysgu wedi gweithio'n dda oherwydd yr oeddent yn gallu gweld os oeddent wedi deall y wybodaeth a ddysgwyd yn y wers.

Asesu cyfoedion



Atodiad 5

Addysgais wers Gymraeg am adnoddau ysgol i Flwyddyn 7. Yr oedd rhaid iddynt ddewis bocs a chwblhau'r dasg yn y bocs ar lafar. Yr oedd y bocsys yn berthnasol i'r wybodaeth a ddysgwyd yn y wers flaenorol (Rheolau'r ysgol). Dengys y dasg wahaniaethu ac asesu ar gyfer dysgu oherwydd bod pob bocs yn cynnwys gwahanol dasgau ar gyfer gwahanol alluoedd. Felly, mae cyfle i'r disgyblion herio eu hunain ar sail eu gallu. Fodd bynnag, gallai hyn gael effaith ar hyder disgyblion gallu is oherwydd eu bod yn ateb y bocs hawdd ac yr oedd un disgybl wedi ateb un bocs sy'n gwneud yn anodd i mi asesu dealltwriaeth yr holl ddosbarth.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer



Atodiad 6

Addysgais wers Gymraeg am absenoldeb i Flwyddyn 8. Yr oedd rhaid iddynt ofyn cwestiynau i'w cyd-ddysgwyr ar lafar (Ble roeddet ti?) ac ateb trwy ddweud 'Roeddwn i'n dost. Roedd ….. gyda fi/ arna i' gan roi salwch fel rheswm er mwyn adolygu'r hen wybodaeth (salwch) a chreu siart tali. Yr oedd y dasg wedi eu helpu i ymarfer eu sgiliau Cymraeg, datblygu hyder wrth siarad yr iaith ac adolygu'r hen wybodaeth. Adlewyrcha hyn lythrennedd oherwydd eu bod yn ymarfer eu hiaith. Ar ôl hyn, yr oedd tasg rhifedd oherwydd yr oedd rhaid iddynt greu graff er mwyn dangos canlyniadau'r siart tali. Dewisais iddynt greu graff oherwydd ei bod yn hanfodol cynnwys themâu trawsgwricwlaidd wrth addysgu disgyblion. Yr oedd y dasg wedi eu helpu i wella eu sgiliau rhifedd a'u hyder yn yr iaith.



Yr oedd rhaid iddynt gwblhau'r dasg yn eu llyfrynnau ond yr oedd rhai disgyblion wedi gwneud y dasg yn eu llyfrau oherwydd anghofion nhw eu llyfrynnau. Dyma enghraifft o graff a wnaeth un disgybl yn ei llyfr. Yr oedd anodd iddi gwblhau'r graff yn ei llyfr oherwydd nad oedd graddfeydd cyfartal, felly dylwn i fod wedi darparu papur graff ar gyfer y disgyblion a oedd wedi anghofio eu llyfrau.



Cyfieithu brawddegau

Cywiro brawddegau



Cywiro brawddegau

Atodiad 7

Addysgais wers Gymraeg am y cymal enwol (defnyddio 'bod') i Flwyddyn 10. Dyma enghraifft o gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd oherwydd yr oedd tasg ysgrifennu ar ddiwedd y wers lle yr oedd rhaid iddynt fynegi barn am chwaraeon gan sicrhau eu bod yn defnyddio'r cymal enwol yn gywir. Portreada hyn lythrennedd oherwydd eu bod yn ymarfer a gwella eu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg. Nid oeddwn wedi darparu meini prawf llwyddiant yn ystod y dasg ond darparais batrymau brawddegau ar y sleid er mwyn eu cefnogi nhw a sgaffaldio eu dysgu. Hefyd, yn ystod y wers yr oedd rhaid iddynt gywiro a chyfieithu brawddegau er mwyn adolygu'r cymal enwol sy'n atgyfnerthu llythrennedd oherwydd eu bod yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu ac yn dysgu iaith a rheolau gramadegol.



Holiadur a'r dasg darll...

Atodiad 8

Addysgais wers Gymraeg i Flwyddyn 9, ffocws y wers oedd adolygu'r amser gorffennol (pob rheol) trwy gwblhau holiadur, creu graff a chwblhau tasg darllen a deall. Yr oedd rhaid iddynt gwblhau holiadur penwythnos (Sleid 5) trwy ofyn cwestiynau i'w gilydd er mwyn gwella eu hyder wrth siarad y Gymraeg. Ar ôl hyn, yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu 5 brawddeg yn y trydydd person sy'n disgrifio'r canlyniadau er mwyn adolygu'r trydydd person ac ymarfer eu sgiliau ysgrifennu (sleid 6). Dengys hyn lythrennedd oherwydd eu bod yn gwella eu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg. Yr oedd rhaid iddynt gwblhau tasg rhifedd trwy greu graff i ddangos canlyniadau'r holiadur er mwyn datblygu eu sgiliau rhifedd yn y Gymraeg (sleid 7) sy'n atgyfnerthu fy mod yn cynnwys cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn olaf, yr oedd rhaid iddynt gwblhau tasg darllen a deall trwy ddarllen darn fel dosbarth ac wedyn ateb cwestiynau am y darn er mwyn profi dealltwriaeth (sleid 8 a 9). Portreada hyn llythrennedd oherwydd eu bod yn ymarfer eu sgiliau llythrennedd trwy ddarllen ac ysgrifennu brawddegau i ateb cwestiynau. Fodd bynnag, dylwn fod wedi cynnwys cymhwysedd digidol oherwydd fy mod yn cynnwys llythrennedd ym mhob gwers ac yn cynnwys rhifedd yn aml ond nid wyf yn cynnwys cymhwysedd digidol yn ystod fy ngwersi sy'n rhwystro ar brofiad trawsgwricwlaidd disgyblion.

Yr amser gorffenno...

Cynllunio 94A yr am...

Atodiad 9

Addysgais wers Gymraeg am yr amser gorffennol (Rheol A- on nhw, odd..) i Flwyddyn 9 lle yr oedd tasgau llythrennedd oherwydd yr oedd rhaid iddynt gwblhau tasg darllen a deall trwy ddarllen darn ac ateb cwestiynau amdani (sleid 11) er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r amser gorffennol (on nhw, odd..). Yr oeddent wedi cwblhau'r dasg yn gywir sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth. Ar ôl hyn, yr oedd tasg estynedig lle yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am



oedd tasgau llythrennedd oherwydd yr oedd rhaid iddynt gwblhau tasg darllen a deall trwy ddarllen darn ac ateb cwestiynau amdani (sleid 11) er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r amser gorffennol (on nhw, odd..). Yr oeddent wedi cwblhau'r dasg yn gywir sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth. Ar ôl hyn, yr oedd tasg estynedig lle yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am eu penwythnos (sleid 12) trwy ddefnyddio'r amser gorffennol er mwyn adolygu'r hen wybodaeth (Rheol A- ais i) sy'n dangos llythrennedd oherwydd eu bod yn adeiladu ar eu sgiliau ysgrifennu. Darparais enghraifft o baragraff ar y sleid ond yr oedd rhai disgyblion wedi copïo'r paragraff, felly dylwn i fod wedi darparu patrymau brawddegau yn hytrach na pharagraff fel enghraifft.

Mae addysgu a dysgu da yn gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

Tuesday, December 10, 2019 5:04 PM





Lis Jones Sâl

Atodiad 10

Addysgais wers Gymraeg am y gerdd 'Sâl' gan Lis Jones i Flwyddyn 8. Dewisais adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol oherwydd eu bod wedi dysgu'r thema 'Salwch' dwy wers cyn, felly yr oeddent yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o salwch a oedd wedi eu helpu i ddeall y gerdd yn well. Darllenwyd y gerdd fel dosbarth er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ynganiad cywir. Yn ystod y wers, yr oedd tasg lle yr oedd rhaid iddynt greu bwrdd stori o'r gerdd er mwyn profi eu dealltwriaeth. Darparais enghreifftiau iddynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r dasg (sleid 7). Yr oedd rhaid iddynt dynnu lluniau a dewis geiriau allweddol o'r gerdd i gyd-fynd â'r lluniau er mwyn portreadu prif ddigwyddiadau'r gerdd. Dyma enghraifft o fwrdd stori disgybl ond nid yw'r disgybl wedi ysgrifennu geiriau allweddol i gyd-fynd â r lluniau, felly byddai'n anodd iddi edrych yn ôl ar y gerdd a chofio'r digwyddiadau. Felly, gallwn fod wedi darparu rhestr wirio iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn tynnu lluniau ac yn cynnwys geiriau allweddol i gyd-fynd. Ar y cyfan, yr oedd y dasg wedi ennyn diddordeb disgyblion, cadw sylw'r disgyblion ac yr oeddent wedi mwynhau cwblhau'r dasg sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys tasgau hwylus wrth addysgu disgyblion.



Yr amser gorffenno...

Atodiad 11

Addysgais wers Gymraeg i Flwyddyn 9, ffocws y wers oedd creu cartŵn a sgript fach er mwyn adolygu'r wybodaeth flaenorol (Yr amser gorffennol, pob rheol). Yr oedd rhaid iddynt ddarllen cartŵn ac wedyn creu eu cartŵn eu hunain trwy ddefnyddio'r amser gorffennol (sleid 6) er mwyn adolygu a phrofi eu dealltwriaeth o'r hen wybodaeth. Darparais feini prawf llwyddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r dasg. Yr oedd y dasg wedi ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd yr oeddent yn gallu cwblhau tasg hwylus ond adolygu gwybodaeth ar yr un pryd. Yr oedd rhaid iddynt ddarllen sgript a chyfieithu geiriau o'r sgript nad oeddent yn eu gwybod. Ar ôl hyn, yr oedd rhaid iddynt greu sgript fach (6 llinell) eu hunain mewn pâr (sleid 8) er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r amser gorffennol (pob rheol). Yr oedd y dasg wedi eu galluogi i ddatblygu eu hyder a sgiliau llafar yn y Gymraeg ond hefyd adolygu'r wybodaeth a phrofiad blaenorol. Yr oedd y dasg hon wedi ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd ei bod yn dasg greadigol.



fach (o linell) eu hunain mewn pâr (sleid 8) er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r amser gorffennol (pob rheol). Yr oedd y dasg wedi eu galluogi i ddatblygu eu hyder a sgiliau llafar yn y Gymraeg ond hefyd adolygu'r wybodaeth a phrofiad blaenorol. Yr oedd y dasg hon wedi ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd ei bod yn dasg greadigol.



Atodiad 12

Addysgais wers Gymraeg am amserlen i Flwyddyn 7. Ffocws y wers oedd cyfieithu eu hamserlen i'r Gymraeg, creu eu hamserlen ddelfrydol ac ysgrifennu paragraff sy'n mynegi barn am eu hamserlen bresennol. Yr oedd y tasgau wedi adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol oherwydd addysgais bynciau'r ysgol i'r disgyblion yn y wers flaenorol. Yr oedd y tasgau wedi eu helpu i adolygu pynciau'r ysgol a phrofi eu dealltwriaeth. Yr oeddent wedi mwynhau creu eu hamserlen ddelfrydol eu hunain (sleid 9) sy'n dangos bod y dasg wedi ennyn diddordeb a chadw sylw'r disgyblion. Mae'n bwysig ennyn diddordeb disgyblion er mwyn sicrhau dealltwriaeth yn ystod y broses ddysgu. Yr oeddent wedi mwynhau mynegi barn am eu hamserlen bresennol, darparais feini prawf llwyddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth a sgaffaldio eu dysgu.



Atodiad 13

Fe wnes i weithdy gemau gyda Blwyddyn 9 er mwyn adolygu'r wybodaeth a phrofiad blaenorol (yr amser gorffennol, pob rheol). Ffocws y wers oedd chwarae amrywiaeth o gemau er mwyn adolygu a phrofi dealltwriaeth o'r amser gorffennol. Yr oedd amrywiaeth o gemau ar wahanol fyrddau ac yr oedd rhaid iddynt symud i fwrdd newydd ar ôl 7 munud. Yr oedd y gemau wedi ennyn diddordeb y disgyblion ac wedi eu helpu i adolygu'r wybodaeth flaenorol mewn ffordd hwylus. Fodd bynnag, yr oedd y gêm 'Snakes & Ladders' yn rhy heriol iddynt oherwydd nad oeddent yn gwybod yr holl ferfau. Felly, yr oedd rhaid iddynt ddefnyddio geiriadur yn ystod y gêm. Dylwn fod wedi darparu taflen help i gyd-fynd â'r gêm. Dyma rai enghreifftiau o'r gemau a chwaraeon nhw yn ystod y gweithdy gemau.





Atodiad 14

Addysgais wers Gymraeg am salwch i flwyddyn 8. Ffocws y wers oedd dysgu gwahanol fathau o salwch yn y person cyntaf a'r trydydd person. Driliais y gwahanol fathau o salwch er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ynganiad cywir. Esboniais yr arddodiad 'Ar' a 'gyda' er mwyn sgaffaldio eu dysgu a dangos sut i newid salwch yn y person cyntaf i'r trydydd person. Yr oeddent yn gyfarwydd gyda'r person cyntaf sy'n dangos eu bod yn adolygu'r hen wybodaeth. Yr oedd tasg cywiro lle yr oedd rhaid iddynt gywiro'r arddodiad. Yna, yr oedd tasg cyfieithu lle yr oedd rhaid iddynt gyfieithu brawddegau sy'n cynnwys salwch er mwyn profi eu dealltwriaeth a gwybodaeth am bopeth a ddysgwyd yn y wers.



Atodiad 15

Addysgais wers Gymraeg am yr amser gorffennol (Rheol A- on nhw, odd..) i Flwyddyn 9 lle yr oedd tasgau llythrennedd oherwydd yr oedd rhaid iddynt gwblhau tasg darllen a deall trwy ddarllen darn ac ateb cwestiynau amdani (sleid 11) er mwyn profi eu dealltwriaeth o'r amser gorffennol (on nhw, odd..). Yr oeddent wedi cwblhau'r dasg yn gywir sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth. Ar ôl hyn, yr oedd tasg estynedig lle yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am eu penwythnos (sleid 12) trwy ddefnyddio'r amser gorffennol er mwyn adolygu'r hen wybodaeth (Rheol A- ais i) sy'n dangos llythrennedd oherwydd eu bod yn adeiladu ar eu sgiliau ysgrifennu. Darparais enghraifft o paragraff ar y sleid ond yr oedd rhai disgyblion wedi copïo'r paragraff



gorffennol (on nhw, odd..). Yr oeddent wedi cwblhau'r dasg yn gywir sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth. Ar ôl hyn, yr oedd tasg estynedig lle yr oedd rhaid iddynt ysgrifennu paragraff am eu penwythnos (sleid 12) trwy ddefnyddio'r amser gorffennol er mwyn adolygu'r hen wybodaeth (Rheol A- ais i) sy'n dangos llythrennedd oherwydd eu bod yn adeiladu ar eu sgiliau ysgrifennu. Darparais enghraifft o baragraff ar y sleid ond yr oedd rhai disgyblion wedi copïo'r paragraff, felly dylwn i fod wedi darparu patrymau brawddegau yn hytrach na pharagraff fel enghraifft.

Adfyfyrio beirniadol

13 December 2019 18:24

Amcan Profiad Addysgu Proffesiynol yw datblygu annibyniaeth o fewn yr ystafell ddosbarth, cryfhau hyder a datblygu dulliau addysgegol i addysgu disgyblion yn hyderus ac yn llwyddiannus. Ychwanega Profiad Addysgu Proffesiynol at wella arfer, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addysgegol a fydd yn helpu i berfformio tasgau'n effeithiol a deall yr ystafell ddosbarth, ysgolion a'r gymuned ehangach yn well. Amcan y portffolio hwn yw darparu enghreifftiau o weithredu'r tair egwyddor addysgegol a amlinellwyd gan Donaldson (2015). Dewiswyd y tair egwyddor oherwydd eu bod yn hanfodol wrth addysgu iaith sy'n berthnasol i fy mhwnc (Cymraeg ail iaith). Bydd trafodaeth o'r llenyddiaeth am addysgu a dysgu effeithiol trwy ganolbwyntio ar y tair egwyddor addysgegol. Byddaf yn adfyfyrio'n feirniadol ar brofiadau addysgu gan ganolbwyntio ar fy nghynnydd o ran cynllunio a gweithredu'r egwyddorion. Darperir argymhellion i sicrhau cynnydd pellach.

Trafodaeth o'r llenyddiaeth

Trafoda'r adran hon lenyddiaeth am addysgu a dysgu effeithiol trwy ganolbwyntio ar bwysigrwydd addysgeg a'r tair egwyddor addysgegol. Ceir gwahanol gydrannau o addysgu effeithiol megis gwybodaeth addysgegol ac ansawdd cyfarwyddyd sy'n cynnwys elfennau fel cwestiynu'n effeithiol, sgaffaldio, adfyfyrio a'r defnydd o asesu (Coe *et al*, 2014:2). Ychwanega'r rhain at wella arfer a helpu'r disgyblion i symud ymlaen yn y broses ddysgu. Mae amseru gwersi'n effeithiol, disgwyliadau uchel a rheoli ymddygiad disgyblion trwy ddefnyddio rheolau clir sy'n cael eu hatgyfnerthu'n gyson yn hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol (Coe *et al*, 2014:3). Dengys y llenyddiaeth (Coe *et al*, 2014) fod llawer o gydrannau sy'n rhan o addysgu a dysgu effeithiol ac mae ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio arnynt. Fodd bynnag, awgryma Donalson (2015) mai'r gydran bwysicaf yw addysgeg oherwydd, 'Mae'n galw am gyfuno gwybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol â barn fanwl ynghylch yr hyn sydd ei angen i hybu dysgu effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Mae wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud athro neu athrawes ragorol' (2015:63). Felly, mae angen i athrawon fyfyrio a datblygu dulliau addysgegol i sicrhau bod y cwricwlwm yn llwyddiannus. Cyfeirir at addysgeg fel rhyngweithiadau rhwng athrawon, disgyblion, yr amgylchedd dysgu a'r tasgau. Mae addysgeg yn cynnwys deilliannau dysgu ac amcanion tymor hir, sgaffaldio dysgu'r disgyblion ac amrywiaeth o dechnegau fel gwaith grŵp, gwaith annibynnol a dysgu dan arweiniad (Husbands a Pearce, 2012:3). Canolbwyntia addysgeg ar ddatblygu meddwl, cwestiynu, asesu ar gyfer dysgu a metawybyddiaeth (Husbands a Pearce, 2012:3).

Ceir egwyddorion addysgegol sy'n rhan o'r cwricwlwm newydd i hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol. Dywedir bod, '[…] addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu' oherwydd ei bod yn, '[…] galluogi ymarferwyr i ddeall effeithiolrwydd y dysgu ac yn golygu rhoi adborth rheolaidd ac ystyrlon ac addasu addysgu a deunyddiau i gwrdd ag anghenion unigolion' (Donaldson, 2015:67-68). Asesu ar gyfer dysgu yw dull o addysgu a dysgu sy'n creu adborth a fydd yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad disgyblion (Cambridge Assessment). Rhy hyn y syniad ei bod yn helpu dysgwyr i gamu ymlaen yn y broses ddysgu, cynyddu hyder a chodi safonau. Amcan asesu ar gyfer dysgu yw llenwi'r bwlch rhwng sefyllfa bresennol y disgyblion a lle maent am fod yn eu dysgu a chyflawniad (Cambridge Assessment). Gall cwestiynu, adborth, hunanasesu, profion ac asesu cyfoedion fod yn rhan o strategaethau asesu ar gyfer dysgu (Jones, 2005). Awgryma llenyddiaeth (Black *et al* 2007, Black a Wiliam 2001, Llywodraeth Cymru 2010) ei bod yn arwain at welliant mewn dysgu disgyblion. Un mantais yw bod disgyblion yn dod yn fwy gweithredol yn eu dysgu oherwydd, 'They think more actively about where they are now, where they are going and how to get there' (Cambridge Assessment). Y brif ddadl o blaid asesu ar gyfer dysgu yw ei bod yn nodwedd hanfodol o'r ystafell ddosbarth sy'n cynyddu safonau a chyflawniad disgyblion (Black a Wiliam, 2001:13). Dywedir nad oes ffordd arall o, '[…] raising

standards for which such a strong prima facie case can be made on the basis of evidence of such large learning gains' (Black a Wiliam, 2001:13). Mae Llywodraeth Cymru (2010) o blaid asesu ar gyfer dysgu a cheir pwyslais ar ei datblygu yn yr ystafell ddosbarth oherwydd ei bod yn arwain at welliannau mewn perfformiad disgyblion, canlyniadau o ansawdd uwch, ymgysylltiad disgyblion yn eu dysgu eu hunain a'r gallu i drosglwyddo sgiliau generig a fydd yn arwain at gyflogaeth well (Llywodraeth Cymru, 2010:3).

Fodd bynnag, dadleuir bod nifer o heriau wrth ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu megis hyfforddi ac amser oherwydd ei chyflwyno i mewn i'r ysgol neu'r ystafell ddosbarth yn cymryd amser ac yn gallu gofyn am hyfforddiant proffesiynol. Bydd hyn yn arwain at newid y ffyrdd y mae athrawon yn rhyngweithio â disgyblion. Amlinella Black a Wiliam (2001) fod safonau yn cael eu cynyddu yn unig gan newidiadau sy'n cael eu rhoi i mewn i effaith uniongyrchol gan athrawon a disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Portreada hyn bwysigrwydd rhyngweithiad rhwng athrawon a disgyblion i gynyddu safonau a chyflawniad. Her arall yw ofn am newid oherwydd, 'High-achieving and diligent learners may find it hard to look for faults and mistakes in their work and thinking. They may feel that they do not want to show any sign of weakness or failure' (Cambridge Assessment). Yn debyg i hyn, awgrymir ei bod yn helpu'r adendriadau is yn fwy na'r adendriadau uwch (Black a Wiliam, 2001:3). Felly, cwestiynir os yw asesu ar gyfer dysgu yn fuddiol ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni safonau a graddau uchel. Gall adborth hefyd fod yn rhwystr oherwydd os yw athrawon yn creu'r argraff bod athrawon yn unig sy'n gallu darparu atebion cywir, bydd disgyblion yn ffeindio'n anodd bod yn annibynnol. Yn wahanol i hyn, pwysleisir bod adborth yn rhoi, '[…] good results with low achievers where it concentrates on specific problems with their work, and gives them both a clear understanding of what is wrong and achievable targets for putting it right' (Black a Wiliam, 2001:6). Ffurfia hyn y farn bod adborth yn gydran hanfodol o ran asesu ar gyfer dysgu.

Egwyddor addysgegol arall yw, 'Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau’n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i’w harfer' (Donaldson, 2015:68). Ceir pwyslais ar y cyfrifoldebau oherwydd eu bod yn galluogi disgyblion i gymryd rhan yn hyderus ac yn llwyddiannus yn y byd modern (Donaldson, 2015:11). Darpara cymhwysedd digidol wybodaeth, ymagweddau a sgiliau ar gyfer dysgu, gweithio a byw yn y gymdeithas (Ala-Mutka *et al*, 2008:1). Crea hyn y syniad ei bod yn gwella sgiliau, cyflogaeth, datblygiad personol a chyfranogiad yn y gymdeithas. Nodir bod, 'The importance of educating the digital generation is not […] about being able to use digital media in and out of school […] it is about creating a space for reflection and the building of knowledge that will help all students participate as citizens in a digital culture' (Erstad, 2010:69). Awgryma hyn fod creu cyd-destunau lle bydd disgyblion yn gallu adfyfyrio'n well na chreu cyfleoedd iddynt ymarfer defnyddio cymhwysedd digidol a fydd yn eu helpu i ddatblygu fel unigolyn, eu gwybodaeth a sgiliau digidol. Yn yr un modd, 'Literacy and numeracy skills are crucial to a person’s ability to develop fully as an individual, to live a satisfying and rewarding life and to participate fully in our society' (Department of Education and Skills, 2011:5). Cynigia hyn y farn bod trwy ddatblygu a darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, byddant yn gallu cyfrannu at y gymdeithas a'r gweithle, datrys problemau, cyflawni llwyddiant a gosod safonau a thargedau ar gyfer dysgu.

Amlinella Donaldson (2015) fod '[…] addysgu a dysgu da yn gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb' (2015:67) oherwydd os yw athrawon yn ennyn diddordeb, mae'n haws i ddisgyblion ddysgu gwybodaeth newydd (Rosenshine, 2012). Dengys ymchwil fod wrth ennyn diddordeb disgyblion, byddant yn dangos mwy o ymdrech a chymryd mwy o sylw yn yr ystafell ddosbarth (Fredricks *et al*, 2004) a fydd yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol, safonau uwch a graddau gwell (Connell *et a*l, 1994). Dibynna ennyn diddordeb ar anghenion seicolegol sy'n golygu bod, '[…] people need to feel competent, securely related to their social surroundings, and autonomous in order to be truly involved in the activities they undertake' (Thijs & Verkuyten, 2009). Gall gemau helpu i ennyn diddordeb disgyblion oherwydd eu bod yn adeiladu ar ddiddordebau, sgiliau a gwybodaeth disgyblion ac yn cynyddu cymhelliant athrawon (Groff *et al*, 2010:5). Mae hyn yn hanfodol oherwydd mai ffactor arall sy'n effeithio

ar ennyn diddoreb yw ymddygiad a chymhelliant athrawon oherwydd, '[…] teachers high in confidence (self-efficacy) are more likely to engage in pedagogy that is characterized by positive, proactive, and solution-focused orientations, resulting in increased student motivation and engagement' (Stephens, 2015, Ar-lein). Nodir bod gwybodaeth a phrofiad blaenorol yn galluogi disgyblion i ddysgu gwybodaeth newydd, gwella dealltwriaeth a chryfhau annibyniaeth (Wallace a Husid, 2016). Gall gwybodaeth a phrofiad blaenorol helpu disgyblion i feddwl yn gritigol a'u hannog i gael dull synhwyrol tuag at brofiadau a dysgu newydd (Wallace a Husid, 2016). Pwysleisia theori Bruner (1977) y broses o atgyfnerthu ac adolygu'r hen wybodaeth i gymhwyso a chreu gwybodaeth newydd. Dywedir y dylai athrawon ddarparu sgaffaldau dysgu sy'n helpu disgyblion i adeiladu ar wybodaeth i greu a dysgu gwybodaeth newydd (Bruner, 1977) a fydd yn ychwanegu at gyflawni safonau gwell ac addysgu a dysgu effeithiol.

I grynhoi, ceir nifer o gydrannau ac egwyddorion addysgegol sy'n rhan o addysgu a dysgu effeithiol.

Adfyfyrio beirniadol

Yn yr adran hon, adfyfyrir yn feirniadol ar brofiadau addysgu gan ganolbwyntio ar fy nghynnydd o ran cynllunio a gweithredu'r egwyddorion addysgegol. O ran asesu ar gyfer dysgu, defnyddiwyd y strategaeth cwestiynu a goleuadau traffig yn fy ngwersi cynnar i asesu dealltwriaeth disgyblion. Addysgais wers (Atodiad 5) lle yr oedd 3 golau traffig ac yr oedd rhaid iddynt ddewis bocs a chwblhau'r dasg yn y bocs ar lafar ar sail eu gallu. Fodd bynnag, gallai hyn fod wedi cael effaith ar hyder disgyblion gallu is oherwydd eu bod yn ateb y bocs hawdd. Cwestiynais yn agored a chwblhaodd 3 disgybl focs yr un ar lafar o flaen y dosbarth. Atebasant yn gywir sy'n profi eu dealltwriaeth ond nid oeddwn yn gallu asesu dealltwriaeth gweddill y dosbarth oherwydd yr oedd tri bocs yn unig. Felly, nid oeddwn yn deall effeithiolrwydd y dysgu neu'n sicr os oedd y disgyblion eraill yn deall y wybodaeth flaenorol. Dengys hyn nad oedd y strategaeth wedi gweithio'n effeithiol oherwydd yr oedd gormod o ddisgyblion i asesu dealltwriaeth pawb.

Oherwydd hyn, addasais fy arfer trwy ddefnyddio strategaeth newydd (asesu cyfoedion). Yn fy ngwersi cynnar, nid oeddwn yn cynnwys asesu cyfoedion oherwydd credais fod disgyblion yn gwrando ar adborth athrawon yn fwy. Fodd bynnag, defnyddiwyd asesu cyfoedion yn fy ngwers ddiweddar (Atodiad 4) oherwydd ei bod yn arwain at, '[…] increased pupil attainment, improvements in self-esteem and increased engagement with learning' (Sebba *et al*, 2008:20). Yr oedd rhaid i'r disgyblion farcio paragraff eu partner a rhoi adborth a lefel iddynt i ddarparu, '[…] clear understanding of what is wrong and achievable targets for putting it right' (Black a Wiliam, 2001:6). Gweithiodd hyn yn dda oherwydd yr oeddwn yn gallu gweld os oeddent wedi deall y wybodaeth a ddysgwyd yn y wers. Yr oeddent wedi darllen a gwrando ar adborth eu partner sy'n portreadu ZPD (Vygotsky, 1978) oherwydd eu bod yn dysgu o help eu cyd-ddysgwyr. Portreadir cynnydd oherwydd fy mod yn ceisio cynnwys elfen o asesu cyfoedion wrth gynllunio er mwyn annog disgyblion i ddysgu a deall pwysigrwydd adborth. Er fy mod yn defnyddio nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, nid wyf yn darparu tasgau hunanasesu yn aml sy'n anfantais am fy arfer. Byddai hyn yn galluogi disgyblion i gydnabod eu gwendidau a '[…] think more actively about where they are now, where they are going and how to get there' (Cambridge Assessment).

O ran cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, yr oeddwn yn cynnwys un cyfrifoldeb yn unig (llythrennedd) yn fy ngwersi cynnar (Atodiad 7 a 9) oherwydd bod llythrennedd yn galluogi pobl i gyfathrebu'n hyderus a gwneud synnwyr o'r byd (National Literacy Trust, 2017). Yr wyf yn addysgu iaith ac mae'n hanfodol i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Addysgais wers (Atodiad 7) trwy ddefnyddio'r dull clywedol oherwydd driliais eirfa a phatrymau brawddegau a oedd yn cynnwys y cymal enwol ac yr oedd rhaid iddynt gyfieithu a chywiro brawddegau i brofi eu dealltwriaeth. Dengys hyn y dull clywedol a llythrennedd oherwydd eu bod yn gwella eu gramadeg a'u hiaith trwy ddysgu a chlywed rheolau gramadegol. Yr oedd tasg ysgrifennu ar ddiwedd y wers oherwydd pwysleisir ysgrifennu ar draws y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 (Llywodraeth Cymru 2015:26). Cwblhaont y dasg yn gywir sy'n dangos bod y dull yn addas ac wedi'u helpu i brofi eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Fodd bynnag, er fy mod wedi datblygu eu sgiliau

llythrennedd, nid oeddwn wedi datblygu eu sgiliau rhifedd. Yr wyf wedi dod i ddeall pwysigrwydd datblygu sgiliau rhifedd oherwydd, 'Numeracy encompasses the ability to use mathematical understanding and skills to solve problems and meet the demands of day-to-day living in complex social settings' (Hague a Payton, 2010:8). Felly, heb sgiliau rhifedd, ni fydd disgyblion yn gallu cyfathrebu'n effeithiol, deall gwybodaeth neu berfformio tasgau syml.

Gwelir cynnydd oherwydd nawr fy mod yn ceisio cynnwys rhifedd yn fwy. Yn fy ngwers ddiweddar (Atodiad 8), defnyddiwyd y dull cyfathrebol i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd oherwydd bod datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith pobl ifanc yn sylfaenol i gyfleoedd bywyd pob unigolyn (Hague a Payton, 2010:9). Cwblhaodd y disgyblion dasg siarad oherwydd awgryma Corbett (2011) fod siarad cyn ysgrifennu tasg yn gwella sgiliau llythrennedd. Yr oedd hyn wedi gwella eu hyder a rhuglder yn y Gymraeg sy'n bwysig oherwydd pwysleisir llafaredd ar draws y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 (Llywodraeth Cymru 2015:19). Darparwyd tasg rhifedd yn ystod y wers er mwyn datblygu sgiliau rhif oherwydd canolbwyntia'r cwricwlwm (CA3) ar ddefnyddio sgiliau rhif (Llywodraeth Cymru 2015). Cwblhaont dasg darllen a deall i wella eu sgiliau darllen oherwydd pwysleisir darllen ar draws y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 (Llywodraeth Cymru 2015:22). Fodd bynnag, er fy mod yn defnyddio llythrennedd ym mhob gwers a rhifedd yn aml iawn, nid wyf yn defnyddio cymhwysedd digidol yn fy ngwersi sy'n rhwystro profiad trawsgwricwlaidd disgyblion ac yn dangos gwendid yn fy nghynllunio a gweithredu'r egwyddor oherwydd, 'Young people need to be prepared for a successful adulthood in a world increasingly saturated with digital technologies' (Hague a Payton, 2010:17). Dylwn gynnwys cymhwysedd digidol yn fy ngwersi i alluogi disgyblion i gymryd rhan yn hyderus ac yn llwyddiannus yn y byd modern, gwella eu sgiliau digidol a sicrhau eu bod yn datblygu'n bersonol (Hague a Payton, 2010).

Yn fy ngwersi cynnar, gosodais dasgau a oedd yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol (Atodiad 15) ond nid oeddent yn ennyn diddordeb. Yr oeddwn yn ddibynnol ar dasgau cywiro a chyfieithu ym mhob gwers i helpu disgyblion i wella a datblygu eu hiaith. Er enghraifft, defnyddiwyd y dull clywedol wrth addysgu salwch (Atodiad 14) oherwydd driliais yr eirfa i sicrhau dealltwriaeth ac ynganiad cywir sy'n dangos fy mod yn sgaffaldio eu dysgu (Bruner, 1977). Esboniais arddodiaid a sut i newid salwch o'r person cyntaf i'r trydydd person sy'n dangos eu bod yn adeiladu ar eu gramadeg blaenorol ac yn gwella eu hiaith. Gosodais dasg cywiro a thasg cyfieithu sy'n cynnwys salwch i brofi eu dealltwriaeth. Yr oedd y tasgau wedi'u helpu i adeiladu ar wybodaeth trwy newid y salwch o'r person cyntaf i'r trydydd person. Er eu bod wedi cwblhau'r tasgau'n gywir, nid oedd y tasgau wedi ennyn diddordeb oherwydd yr oedd pwyslais enfawr ar gyfieithu a chywiro. Yr oeddent yn cwyno am y tasgau ac yn dechrau i gamymddwyn yn ystod y wers. Felly, yr oedd rhaid i mi newid fy arfer trwy greu a gosod tasgau'n fwy hwylus i ennyn diddordeb ac arwain at ddisgyblion yn dangos mwy o ymdrech a chymryd mwy o sylw yn yr ystafell ddosbarth (Fredricks *et al*, 2004).

Gwelir cynnydd o ran fy nghynllunio a gweithredu'r egwyddor oherwydd nawr yr wyf yn ceisio dewis adnoddau a gosod tasgau hwylus er mwyn ennyn diddordeb (Atodiad 11 a 12) a fydd yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol, safonau uwch a graddau gwell (Connell *et a*l, 1994). Yn fy ngwers ddiweddar (Atodiad 10), dewisais dasgau sy'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac yn ennyn diddordeb oherwydd gallent helpu disgyblion i feddwl yn gritigol a'u hannog i gael dull synhwyrol tuag at brofiadau a dysgu newydd (Wallace a Husid, 2016). Dysgant am 'Salwch' yn y wers flaenorol, felly yr oeddent yn gyfarwydd â'r thema a oedd wedi eu helpu i ddeall y gerdd yn well. Gosodais dasg (creu bwrdd stori o'r gerdd) a oedd wedi ennyn diddordeb disgyblion a'u helpu i brofi eu dealltwriarth mewn ffordd greadigol. Dengys hyn fy mod yn sgaffaldio eu dysgu trwy ddarparu cyfleoedd iddynt atgyfnerthu ac adolygu'r hen wybodaeth i gymhwyso a chreu gwybodaeth newydd (Bruner, 1977). Yr oedd rhaid iddynt dynnu lluniau a dewis geiriau allweddol o'r gerdd i gyd-fynd â'r lluniau i bortreadu'r prif ddigwyddiadau, felly dysgant wybodaeth newydd mewn ffordd hwylus. Ffordd arall yr wyf wedi ennyn diddordeb ac adeiladu ar wybodaeth flaenorol yw cynnwys gemau. Fe wnes i weithdy gemau (Atodiad 13) oherwydd, 'Game-based approaches present an excellent opportunity to engage students in activities which can enhance learning and produce a range of educational benefits' (Groff *et al*, 2010:5). Yr oedd pob gêm yn cynnwys cwestiynau am yr amser gorffennol a oedd wedi ennyn diddordeb a'u helpu i adolygu'r wybodaeth flaenorol mewn ffordd hwylus oherwydd dysgant am yr amser gorffennol yn y gwersi blaenorol. Cefnoga hyn fy mod yn gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb. Fodd bynnag, yr oedd un gêm yn

rhy heriol iddynt oherwydd nad oeddent yn gwybod yr holl ferfau. Felly, yr oedd rhaid iddynt ddefnyddio geiriadur yn ystod y gêm. Dylwn fod wedi darparu taflen help i gyd-fynd â'r gêm i sgaffaldio eu dysgu.

Wrth adfyfyrio ar brofiadau addysgu, yr wyf wedi deall pwysigrwydd cynnwys y tair egwyddor oherwydd eu bod yn gwella perfformiad disgyblion, datblygu sgiliau personol disgyblion a'u hannog i gael dull synhwyrol tuag at brofiadau a dysgu newydd.

Argymhellion

Trafoda'r adran hon argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Byddaf yn parhau i wneud cynnydd trwy gynnwys asesu ar gyfer dysgu yn fy arfer oherwydd ei bod yn helpu i gynyddu cyflawniad disgyblion ac yn annog disgyblion i feddwl '[…] more actively about where they are now, where they are going and how to get there' (Cambridge Assessment). Byddaf yn amrywio strategaethau asesu ar gyfer dysgu ac yn sicrhau fy mod yn cynnwys hunanasesu trwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain oherwydd ei bod yn galluogi disgyblion i ddeall prif ddibenion eu dysgu a gwybod yr hyn y maent yn gorfod ei wneud i gyflawni a gwella (Black a Wiliam 2001). Er mwyn gwella fy natblygiad, byddaf yn sicrhau fy mod yn cynnwys cymhwysedd digidol mewn gwersi oherwydd, 'Developing digital literacy can help students to access subject knowledge at a time when digital technologies are changing the way knowledge is created and communicated' (Hague a Payton, 2010:17) a fydd yn arwain at ddatblygu eu sgiliau a hyder ac yn gwella datblygiad personol. Er mwyn cyflawni hyn, gallwn ddangos clipiau fideo o S4C iddynt neu osod tasgau lle bydd rhaid iddynt ddefnyddio cyfrifiaduron. Yn olaf, byddaf yn parhau i osod tasgau a dewis adnoddau sy'n ennyn diddordeb ac yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol oherwydd, '[…] the more we help them engage their prior understandings, the more likely they are to learn well – and the less likely they are to misinterpret the material in our courses' (Wenk, 2017). Byddaf yn sicrhau hyn trwy osod tasgau hwylus e.e gemau a fydd yn eu hannog i ddysgu gwybodaeth newydd ac yn helpu i ennyn diddordeb yn y wybodaeth flaenorol ac yn cysylltu gwybodaeth newydd â'u dealltwriaeth flaenorol.

Cyfeiriadau

02 January 2020 15:10

Ala-Mutka, K., Punie, Y., a Redecker, C. 2008. *Digital Competence for Lifelong Learning.* [Ar-lein] Ar gael ar: ftp://ftp.jrc.es/pub/EURdoc/JRC48708.TN.pdf [Gwelwyd 10/12/19].

Black, P. & Wiliam, D. (2001). *Inside the Black Box: Raising standards through classroom assessment.* [Ar-lein] Ar gael ar: https://weaeducation.typepad.co.uk/files/blackbox-1.pdf [Gwelwyd 12/12/19].

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., a Wiliam, D. 2007. Assessment for Learning. Maidenhead: McGraw-Hill Education.

Bruner, J. 1977 (2il argraffiad). *The process of Education*. Cambridge Mass: Havard University Press.

Cambridge Assessment International Education. (Dim dyddiad). *Getting started with Assessment for Learning: What is assessment for learning?* [Ar-lein] Ar gael ar: https://cambridge-community.org.uk/professional-development/gswafl/index.html [Gwelwyd 12/12/19].

Coe, R., Aloisi, C., Higgins, S., & Major, E. (2014). *What Makes Great Teaching?* Sutton Trust. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf [Gwelwyd 02/12/19].

Connell, J., Spencer, M., & Aber, J. (1994). Educational risk and resilience in African-American youth: Context, self, action, and outcomes in school. *Child Development, 65,* 493-506.

Corbett, P. 2011. *Talk for writing across the curriculum how to teach non-fiction writing to 5-10-year-olds*. New York : Open University Press.

Department of Education and Skills. 2011. *Literacy and numeracy for learning and life: The National Strategy to Improve Literacy and Numeracy among Children and Young People 2011-2020*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.education.ie/en/Publications/Policy-Reports/lit_num_strategy_full.pdf [Gwelwyd 15/12/19].

Donaldson, G. 2015. Dyfodol llwyddiannus: *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Gwelwyd 04/12/19].

Erstad, O. 2010. Educating the Digital Generation Exploring Media Literacy for the 21st Century. *NORDIC JOURNAL OF DIGITAL LITERACY*, VOL 5, 56-72. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.idunn.no/file/pdf/42875940/art05.pdf [Gwelwyd 16/12/19].

Fredericks, J., Blumenfeld, P., & Paris, A. (2004). School engagement: Potential of the concepts, state of the evidence. *Review of Educational Research, 74*, 59-109.

Hague, C., a Payton, S. 2010. *Digital literacy across the curriculum.* [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.nfer.ac.uk/publications/futl06/futl06.pdf [Gwelwyd 14/12/19].

Husbands, C., a Pearce, J. (2012). *What makes great pedagogy? Nine claims from research*. National College for School Leadership. [Ar-lein] Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/329746/what-makes-great-pedagogy-nine-claims-from-research.pdf [Gwelwyd 10/12/19].

Jen Groff, J., Howells, C., a Cranmer, S. 2010. *The impact of console games in the classroom: Evidence from schools in Scotland*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.nfer.ac.uk/publications/futl25/futl25.pdf [Gwelwyd 18/12/19].

Jones, C. 2005*. Assessment for learning*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://dera.ioe.ac.uk/7800/1/AssessmentforLearning.pdf [Gwelwyd 19/12/19].

Llywodraeth Cymru 2010. *Why develop thinking and assessment for learning in the classrom?* [Ar-lein] Ar gael ar: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/05/ae/7b/09/4ca143999dea481cd5d23846/why-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf [Gwelwyd 07/12/19].

Llywodraeth Cymru 2015. *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2-4*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/storage/5982ca20-088a-4035-8dad-57c179b3b058/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf [Gwelwyd 02/01/20].

National Literacy Trust 2017. *What is literacy?* [Ar-lein] Ar gael ar: https://literacytrust.org.uk/information/what-is-literacy/ [Gwelwyd 16/12/19].

Rosenshine, B. 2012. *Principles of Instruction: Research-based strategies that all teachers should know*. American Educator. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf [Gwelwyd 14/12/19].

Sebba, J., Crick, R., Yu, G., Lawson, H., Harlen, W., a Durant, K. 2008. *Systematic review of research evidence of the impact on students in secondary schools of self and peer assessment*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.researchgate.net/profile/Judy_Sebba/publication/267947144_Systematic_review_of_research_evidence_of_the_impact_on_students_in_secondary_schools_of_self_and_peer_assessment/links/54ad739d0cf24aca1c6f5798.pdf [Gwelwyd 19/12/19].

Stephens, T. 2015. *Encouraging Positive Student Engagement and Motivation: Tips for Teachers*. [Ar-lein] Ar gael ar: *Gwefan Pearson 2019* https://www.pearsoned.com/encouraging-positive-student-engagement-and-motivation-tips-for-teachers/ [Gwelwyd 16/12/19].

Thijs, J., & Verkuyten, M. (2009). Students' anticipated situational engagement: The roles of teacher behavior, personal engagement, and gender. *The Journal of Genetic Psychology, 170*(3), 268-286.

Vygotsky, L. 1978. *Mind in Society*. Cambridge Mass: Harvard University Press.

Wallace, V., a Husid, W. 2016 (2il argraffiad). *Collaborating for Inquiry-Based Learning: School Librarians and Teachers Partner for Student Achievement*. Libraries Unlimited.

Wenk, L. 2017. *The importance of engaging prior knowledge*. [Ar-lein] Ar gael ar: *Gwefan Hampshire College* https://sites.hampshire.edu/ctl/2017/09/14/the-importance-of-engaging-prior-knowledge/ [Gwelwyd 18/12/19].